Chwarae â mwd

Cyflwyniad

Mae Mwynhau Mwd yn gwahodd ymarferwyr i ddarganfod o'r newydd bod mwd yn un o'r adnoddau mwyaf gwerthfawr a hyblyg ar gyfer dysgu yn yr awyr agored yn ystod y blynyddoedd cynnar.



Beth yw chwarae â mwd a pham rydym yn ei annog?

Caiff mwd ei ystyried yn aml yn rhywbeth i'w osgoi neu'i lanhau, ond mewn gwirionedd mae'n adnodd pwerus ar gyfer chwarae, archwilio a datblygu ac mae'n cynnig profiadau synhwyraidd cyfoethog i blant, sy'n hybu dysgu ar draws pob un o feysydd y cwricwlwm.

Nod y bennod hon yw meithrin hyder ymarferwyr i ddefnyddio mwd yn rhan o'r ddarpariaeth pob dydd. Nid yw chwarae â mwd yn gofyn am offer arbenigol na mannau awyr agored mawr; gellir ei greu â deunyddiau syml a'i addasu ar gyfer unrhyw leoliad. Pan gaiff chwarae â mwd ei gynnig fel gweithgaredd penagored, mae'n annog plant yn naturiol i arwain eu dysgu eu hunain drwy eu chwilfrydedd a'u dychymyg a thrwy archwilio'n ymarferol. Nid yw Mwynhau Mwd yn golygu trefnu gweithgareddau perffaith; mae'n golygu creu'r amodau i chwarae ystyrlon ddigwydd.

Drwy groesawu annibendod, ansicrwydd ac arbrofi, gall ymarferwyr hybu datblygiad corfforol plant, eu lles emosiynol, eu creadigrwydd a'u cysylltiad â byd natur, gan ddatblygu diwylliant chwaraegar, cryf o ddysgu yn yr awyr agored yn eu lleoliad.

Ffyrdd syml o gynnig cyfleoedd i chwarae â mwd

Cegin fwd: llestri, sosbenni a deunyddiau naturiol ar gyfer y dychymyg a chwarae rôl
Pwll cloddio neu ardal gloddio: ar gyfer chwarae corfforol, ymchwilio ac archwilio
Creu pridd: cymysgu pridd, tywod, dŵr a dail i greu gwahanol weadau
Chwarae byd bach â mwd: defnyddio ffigyrau, anifeiliaid ac eitemau naturiol
Gwneud marciau mewn mwd: brigau, brwshys neu fysedd ar gyfer darlunio ac ysgrifennu cynnar

Datblygiad corfforol a synhwyraidd

Mae chwarae â mwd yn hybu datblygiad corfforol plant wrth iddynt godi, cario, cloddio, arllwys a gwasgu. Mae'r symudiadau hyn yn cryfhau'r cyhyrau, yn gwella cydsymud ac yn meithrin sgiliau echddygol manwl a bras. At hynny, mae'r profiad synhwyraidd cyfoethog o drin mwd – ei wead, ei dymheredd, ei arogl a'i wydnwch – hefyd yn hybu integreiddio synhwyraidd ac ymwybyddiaeth o'r corff. ***Mae hynny'n helpu plant i ddeall eu cyrff o safbwynt gofodol ac i ddatblygu'r hyder corfforol sy'n ofynnol ar gyfer chwarae a symudiadau mwy cymhleth.***

Lles emosiynol a hunanreoleiddio

Gall chwarae â mwd fod yn brofiad sy'n tawelu rhywun, sy'n galluogi cysylltiad uniongyrchol â'r ddaear ac sy'n rhoi boddhad mawr. Mae'r sgwpio, y cymysgu a'r arllwys dro ar ôl tro'n helpu plant i reoleiddio eu hemosiynau, cael gwared â straen a theimlo'n fwy cartrefol yn eu cyrff. Mae chwarae â mwd hefyd yn hybu gwydnwch a hyder wrth i blant gymryd risgiau y mae modd eu rheoli ac wrth iddynt brofi a methu mewn modd diogel. ***Gydag amser, gall hynny gyfrannu at reoleiddio emosiynol gwell, canolbwyntio gwell ac ymdeimlad cryfach o les.***





Creadigrwydd, y dychymyg a dysgu

Mae mwd yn ddeunydd penagored nad oes ganddo ganlyniad penodol, sy'n golygu ei fod yn ddelfrydol ar gyfer chwarae dychmygus. Mae'n newid i fod yn gawl, yn gacen, yn sment, yn gymysgedd neu'n dirweddau, yn dibynnu ar syniadau'r plentyn. Drwy fwd, mae'r plant yn archwilio cysyniadau gwyddonol cynnar yn naturiol, megis newid, achos ac effaith, cyfaint, gwead, a thrawsnewid, ac maent hefyd yn datblygu iaith gyfoethog a sgiliau cymdeithasol drwy gyd chwarae. ***Mae'r math hwn o ddysgu archwiliol yn hybu chwilfrydedd, sgiliau datrys problemau, ac ymgysylltiad dwfn â'r byd sydd o'u cwmpas.***

Chwarae â mwd

Gosod y sylfeini

Nid yw amgylchedd cryf ar gyfer chwarae â mwd yn golygu creu man perffaith neu gymhleth; yn hytrach, mae'n golygu sicrhau bod plant yn cael mynediad yn rheolaidd i gyfleoedd syml, tra ystyriol i archwilio pridd a dŵr drwy chwarae.



Sut mae chwarae â mwd yn digwydd yn ymarferol

Mewn lleoliad da, caiff chwarae â mwd ei ystyried yn rhan normal a gwerthfawr o ddarpariaeth awyr agored yn hytrach nag yn ddigwyddiad arbennig. Mae ar gael yn aml, gyda chefnogaeth oedolion hyderus, ac mae'n rhan annatod o drefn arferol pob dydd. Mae chwarae â mwd yn gweithio orau pan fydd yn teimlo fel gweithgaredd bwriadol nad yw'n cael ei reoli'n ormodol. Y nod yw peidio ag osgoi annibendod yn gyfan gwbl, ond sicrhau ei fod yn weithgaredd pwrpasol a phleserus y mae modd ei reoli, i'r plant a'r ymarferwyr. Gyda rhai systemau clir ar waith, gall chwarae â mwd barhau i fod yn weithgaredd diogel a reolir, y mae'n hawdd ei gynnal. Gellir cynnig mwd mewn llawer o ffyrdd hyblyg, e.e. drwy ddefnyddio hambyrddau tyff dan do, cloddio sgwâr bach o dywarchen yn yr awyr agored, neu lenwi teiar car neu gynhwysydd mawr i greu ardal fwd bwrpasol.

Sylfeini ymarferol ar gyfer chwarae'n llwyddiannus â mwd

- Diffiniwch yn glir ble y bydd chwarae â mwd yn digwydd (ardal neu barthau penodol)
- Defnyddiwch ffiniau megis hambyrddau, cratiau, ymylon neu fatiau llawr
- Darparwch adnoddau cyfyngedig ond pwrpasol (osgowch unrhyw orlenwi)
- Cyflwynwch drefn arferol syml ar gyfer golchi dwylo a newid dillad
- Cynigiwch ddillad glaw ac anogwch y plant i wisgo esgidiau priodol
- Modelwch agweddau cadarnhaol at annibendod ac archwilio
- Cofiwch gynnwys y plant wrth dacluso'r man dan sylw, ei ailosod a gofalu amdano

Parth cloddio a chymysgu

Mae parth cloddio a chymysgu'n darparu cyfleoedd i chwarae'n gorfforol ac yn arbrofol drwy gloddio, sgwpio, cludo ac arllwys. Mae adnoddau megis rhofiau, bwcedi a chynwysyddion yn hybu cydsymud a datrys problemau. Gall ymarferwyr ymestyn y dysgu â phromptiau syml, gan alluogi'r plant i arwain hefyd. Mae'r parth hwn yn hybu datblygiad corfforol, gwyddoniaeth gynnar, a rheoleiddio emosiynol drwy weithredoedd ailadroddus sy'n cysylltu'r plant â'r ddaear.

Parth byd bach a gwneud marciau

Mae'r parth hwn yn galluogi'r plant i ddefnyddio mwd ar gyfer adrodd stori, portreadu, ac ysgrifennu cynnar. Gan ddefnyddio ffigyrau bach neu eitemau naturiol, gall y plant greu tirweddau, lonydd a bydoedd dychmygol. Mae adnoddau gwneud marciau, megis brigau, bysedd neu frwshys, yn galluogi'r plant i ddarlunio, amlinellu, ac arbrofi â symbolau. Mae hynny'n creu cysylltiad cryf rhwng chwarae synhwyraidd a llythrennedd cynnar. Mae'r parth hwn yn hybu creadigrwydd, datblygiad ieithyddol, a meddwl yn symbolaidd drwy chwarae penagored

Parth gwneud mwd

Mae parth gwneud mwd yn canolbwyntio ar y broses o greu mwd, ac mae'n annog y plant i archwilio sut y mae pridd a dŵr yn rhyngweithio. Gall y plant arllwys, cymysgu, troi ac addasu deunyddiau i greu gwahanol weadau, o rywbeth sych a briwsionllyd i rywbeth trwchus a gludiog. Gellir trefnu'r ardal hon gan ddefnyddio hambyrddau, tybiau neu fwcedi sy'n cynnwys pridd, tywod a dŵr, ochr yn ochr ag offer syml megis llwyau, sgwpiau a jygiau. Gall ymarferwyr hybu'r dysgu drwy ofyn cwestiynau agored heb gyfarwyddo'r chwarae. Mae'r parth hwn yn hybu dysgu gwyddonol cynnar am ddeunyddiau a newid, ac yn cynnig profiadau synhwyraidd cyfoethog sy'n meithrin iaith, sgiliau canolbwyntio, a hunanreoleiddio.

Ymchwil From Risky Play to Dirty Play

pam y mae angen chwarae 'brwnt' ym myd natur ar blant ifanc yn eu bywydau

Alexia Barrable a Jake M. Robinson

Chwarae â mwd

Myfyrio am brofiadau

Mae'r gweithgareddau Mwynhau Mwd yn darparu fframwaith pwrpasol ar gyfer defnyddio mwd fel adnodd dysgu ystyrlon yn amgylchedd y feithrinfa.



Integreiddio Mwynhau Mwd yn ymarfer y feithrinfa

Drwy'r pum gweithgaredd sydd wedi'u dylunio yn ofalus, bydd y plant yn archwilio'n synhwyraidd, yn chwarae'n ddychmygus, yn gwneud marciau cynnar, yn cyfathrebu ac yn datrys problemau. Mae'r profiadau hyn yn hybu meysydd datblygu allweddol ac yn hybu chwilfrydedd, gwydnwch ac annibyniaeth hefyd. Mae'n bwysig nodi'n ogystal eu bod yn agor y drws i fyd ehangach o lawer o archwilio mwd a phridd, a fydd yn annog ymarferwyr i ystyried y gweithgareddau hyn nid fel rhaglen gyflawn ond fel man cychwyn y gall rhagor o syniadau, ymchwiliadau, a phrosiectau a arweinir gan y plant ddeillio ohono. Pan gaiff chwarae â mwd ei ymgorffori mewn ymarfer pob dydd, bydd yn rhywbeth mwy na gweithgaredd awyr agored; bydd yn rhan gyson a gwerthfawr o'r diwylliant dysgu, sy'n annog y plant i archwilio, arbrofi, a'u mynegi eu hunain yn rhydd.

Gall y pum gweithgaredd Mwynhau Mwd:

- gael eu hintegreiddio mewn darpariaeth awyr agored barhaus.
- cael eu cynnig ddwy neu dair gwaith yr wythnos, gyda chyfleoedd i ailadrodd.
- cael eu defnyddio fel profiadau a arweinir gan oedolion, a gefnogir gan oedolion neu a ysgogir gan y plant.
- cael eu haddasu ar gyfer gwahanol oedrannau, galluoedd a diddordebau.
- cael eu diweddaru'n rheolaidd drwy newid adnoddau a pharthau mwdlyd.

Ymgorffori chwarae â mwd mewn ymarfer pob dydd

Mae chwarae â mwd ar ei fwyaf effeithiol pan fydd yn rhan gyfarwydd o drefn arferol y feithrinfa yn hytrach nag yn weithgaredd sy'n digwydd unwaith yn unig. Mae cynnig profiadau penagored yn galluogi'r plant i archwilio mwd yn eu ffyrdd eu hunain, gwneud dewisiadau annibynnol, a dilyn eu syniadau eu hunain heb ganlyniad penodol. Mae cyfleoedd rheolaidd yn galluogi'r plant i fwynhau profiadau fwy nag unwaith, magu hyder, a dyfnhau eu dysgu drwy ailadrodd, archwilio, a meddwl ar y cyd yn gyson.

Cynnal mwynhad yn yr awyr agored – arweinydd awyr agored

Mae cael arweinydd awyr agored penodedig, fel y mae cael arweinydd ystafell, yn hybu darpariaeth o safon. Mae'r amgylchedd awyr agored yn ardal ddysgu gyfoethog a gwerthfawr y mae angen ymarferydd pwrpasol arni i gynllunio'n feddylgar, arsylwi, a myfyrio. Drwy gynnal a chadw adnoddau, ymateb i ddiddordebau'r plant, a gwneud newidiadau bwriadol i barthau mwdlyd, mae'r arweinydd awyr agored yn helpu i sicrhau bod dysgu yn yr awyr agored yn parhau i ddigwydd, yn parhau i gael ei feithrin, ac yn parhau i fod yn ystyrlon.





Dilyn diddordebau'r plant drwy fwd

Pan fydd parthau mwdlyd yn adlewyrchu diddordebau presennol y plant, bydd lefelau ymgysylltu a chwarae cyson yn cynyddu. Gall ymarferwyr wella chwarae â mwd drwy ychwanegu adnoddau sy'n gysylltiedig â'r diddordebau hynny, megis ffigyrau byd bach, cerbydau, deunyddiau naturiol, neu bromptiau stori, a fydd yn galluogi'r plant i greu naratif, archwilio syniadau, a gwneud synnwyr o'r byd sydd o'u cwmpas. Mae ymateb i ddiddordebau'r plant fel hyn yn sicrhau bod chwarae â mwd yn parhau'n benagored, yn berthnasol ac yn gefnogol dros ben i ddysgu a'r dychymyg.

Chwarae â mwd
A microbïom y **perfedd**

Mae plentyndod cynnar yn adeg hollbwysig i ddatblygiad microbïom y perfedd, sef y casgliad o ficro-organebau buddiol sy'n byw y tu mewn i'r system dreulio.



Microbïom drwy fyd natur

Mae ymchwil yn dangos yn gynyddol bod plant ifanc yn cael budd o gyswllt rheolaidd ag amgylcheddau awyr agored naturiol, sy'n cynnwys pridd a mwd. Mewn lleoliadau meithrinfeydd, mae chwarae â mwd yn cynnig ffordd ddiogel, ystyrlon a phriodol o ran datblygiad i blant ymgysylltu â byd natur ac i'w hiechyd corfforol a'u lles emosiynol gael eu hybu. Caiff plentyndod modern ei dreulio'n gynyddol dan do, gyda lefelau uchel o lendid, sydd weithiau'n cyfyngu ar gysylltiad â microbau naturiol (Gill 2014).

Mae lleoliadau meithrinfeydd yn chwarae rôl bwysig o ran modelu cydbwysedd iach sy'n caniatáu i blant chwarae â mwd ond sydd hefyd yn cynnal trefniadau da ar gyfer hylendid, megis golchi dwylo cyn bwyta. Mae'r dull hwn o weithredu'n hybu iechyd corfforol plant ac mae hefyd yn lleihau gorbryder am faw a germau, sy'n helpu'r plant i ddatblygu hyder yn hytrach nag ofn.

Drwy chwarae'n rheolaidd â mwd, gall plant oed meithrin:

- ddod i gysylltiad ag amrywiaeth ehangach o ficro-organebau naturiol sydd i'w cael mewn pridd.
- hybu datblygiad microbïom iach yn eu perfedd yn ystod plentyndod cynnar.
- helpu eu systemau imiwnedd i ddysgu gwahaniaethu rhwng microbau defnyddiol a microbau niweidiol.
- osgoi gormod o lanweithdra, drwy ddatblygu perthynas gytbwys â baw a hylendid.
- meithrin gwydnwch a lles drwy gyswllt rheolaidd ag amgylcheddau naturiol.

Meithrin microbïom iach drwy fyd natur

Mae astudiaethau'n awgrymu bod dod i gysylltiad ag amgylcheddau naturiol amrywiol yn ystod plentyndod cynnar yn hybu datblygiad microbïom amrywiol yn y perfedd, sy'n chwarae rôl mewn iechyd yn gyffredinol ac yn y modd y mae'r system imiwnedd yn gweithio (Rook, 2013; Hanski et al., 2012). Mae mwd a phridd yn cynnwys ystod eang o ficrobau naturiol sy'n wahanol i'r rhai a geir dan do. Pan fydd plant oed meithrin yn cloddio, yn cymysgu mwd ac yn archwilio pridd, byddant yn dod ar draws y micro-organebau hyn mewn modd gofalus a naturiol, a fydd yn helpu eu cyrff i ddysgu ymateb yn briodol i'r byd sydd o'u cwmpas.

Meithrin systemau imiwnedd cryf

Mae ymchwil yn awgrymu bod dod i gysylltiad yn gynnar ag ystod amrywiol o ficro-organebau naturiol yn chwarae rôl bwysig o safbwynt llunio microbïom y perfedd, ac y gallai fod yn cyfrannu i system imiwnedd fwy gwydn yn ddiweddarach mewn bywyd. Yn ystod blynyddoedd meithrin, mae profiadau megis chwarae â mwd yn galluogi'r plant i ddod i gyswllt gofalus â microbau mewn pridd, sy'n absennol i bob pwrpas o amgylcheddau dan do. Mae astudiaethau, gan gynnwys Old Friends Hypothesis (2013) gan Rook ac ymchwil gan Hanski et al. (2012), yn





dangos bod rhyngweithio rheolaidd ag amgylcheddau naturiol yn ystod plentyndod cynnar yn helpu'r system imiwnedd i ddysgu ymateb yn briodol, sy'n lleihau'r tebygolrwydd y bydd yn gorymateb i sylweddau diniwed wrth i'r plant dyfu'n hŷn. Drwy ddarparu cyfleoedd rheolaidd a reolir yn dda i chwarae â mwd, ochr yn ochr ag arferion da o ran hylendid, bydd meithrinfeydd yn hybu'r gwaith o ddatblygu sylfeini iach ar gyfer imiwnedd heb hybu ymddygiad anniogel.

Chwarae â mwd
Meddwl a darllen ymhellach

I ymarferwyr sydd eisoes yn teimlo'n ddigon hyderus i hwyluso chwarae â mwd, mae datblygu'n golygu dyfnhau dealltwriaeth addysgegol drwy ymgysylltu ag ymchwil, theori ac ymarfer myfyriol.



Ehangu ymarfer trwy ddarllen

Gall archwilio llenyddiaeth academaidd atgyfnerthu gwybodaeth broffesiynol, hybu myfyrio beirniadol, a darparu sylfaen dystiolaeth ar gyfer bod yn eiriol dros ddarpariaeth awyr agored o safon mewn lleoliadau ac o fewn sector y blynyddoedd cynnar yn ehangach. Mae darllen pellach yn galluogi ymarferwyr i symud y tu hwnt i beth sy'n gweithio ac ystyried pam y mae'n gweithio, a datblygu dull mwy bwriadol a gwybodus o ymdrin â dysgu yn yr awyr agored. Mae ymchwil i theori chwarae, cysylltiad â byd natur, datblygiad synhwyraidd, lles, a'r wyddor newydd sy'n ymwneud â microbïom y perfedd yn taflu goleuni gwerthfawr ar fanteision hirdymor profiadau o chwarae ym myd natur. Caiff ymarferwyr eu hannog i gael mynediad i gyfnodolion a adolygwyd gan gymheiriaid, sefydliadau ymchwil ym maes y blynyddoedd cynnar, a rhwydweithiau proffesiynol a restrir isod. Mae ymgysylltu ag ymchwil yn cynorthwyo ymarferwyr i fod yn eiriolwyr myfyriol, hyderus dros chwarae yn yr awyr agored, ac i ddatblygu eu haddysgeg yn barhaus er mwyn diwallu anghenion plant, cymunedau ac amgylcheddau.

Ymchwil:

- Early Childhood Research Quarterly
- British Education Research Journal
- Gwefan Dysgu drwy Dirweddau
- International Journal of Early Childhood
- Ymddiriedolaeth Froebel
- Outdoor Play and Learning (OPAL)
- Erthyglau ymchwil ffynhonnell agored gan brifysgolion.

Effaith gweithgareddau sy'n ymwneud â byd natur ar ficrobïom y perfedd

Mae'r astudiaeth isod a adolygwyd gan gymheiriaid yn cysylltu gweithgareddau chwarae ym myd natur â newidiadau ym microbiota'r perfedd ac ymddygiad seicogymdeithasol gwell ymhlith plant o oed y blynyddoedd cynnar, ac yn cynnig tystiolaeth fiolegol sy'n berthnasol i chwarae â mwd a dod i gysylltiad â microbau ac sy'n berthnasol i iechyd y system imiwnedd a lles emosiynol yn ystod plentyndod cynnar. Er nad yw'n ymwneud â "chwarae â mwd" yn unig, mae'n cefnogi yn uniongyrchol gysylltiadau damcaniaethol rhwng chwarae â phridd naturiol a manteision ffisiolegol/ymddygiadol.

(Impact of outdoor nature-related activities on gut microbiota, fecal serotonin, and perceived stress in preschool children: the Play&Grow randomized controlled trial - PMC)

Amgylcheddau dysgu effeithiol ar gyfer datblygiad yn ystod plentyndod cynnar

Mae'r erthygl hon a adolygwyd gan gymheiriaid yn archwilio sut y mae amgylcheddau chwarae ym myd natur, gan gynnwys chwarae â phridd a mwd, yn hybu datblygiad yn ystod plentyndod cynnar, yn enwedig ym maes y synhwyrau, sgiliau echddygol, sgiliau gwybyddol a sgiliau emosiynol-gymdeithasol. Mae'n tynnu sylw at y rôl y mae chwarae synhwyraidd, trin a thrafod deunyddiau, a'r hyn y mae deunyddiau naturiol yn ei gynnig i blant yn ei chyflawni o ran dysgu a datblygiad plant, ac mae'n cysylltu'r rhain yn uniongyrchol â deilliannau sy'n sylfaenol i ymarfer yn y blynyddoedd cynnar.

(Effective Nature-Based Outdoor Play and Learning Environments for below-3 Children: A Literature-Based Summary - PMC)





Pam y mae angen chwarae "brwnt" ym myd natur ar blant ifanc yn eu bywydau

Mae'r ymchwil hon a adolygwyd gan gymheiriaid yn archwilio'r cysyniad bod "chwarae brwnt", sef chwarae sy'n cynnwys pridd, mwd, a deunyddiau tebyg, yn fuddiol i ddatblygu iechyd corfforol a chapasiti rheoleiddiol plant pan gaiff ei hwyluso'n feddylgar. Mae'n bosibl y bydd angen mynediad academaidd i weld y testun llawn, ond mae'r crynodeb a'r cyd-destun yn cyfeirio'n uniongyrchol at fanteision chwarae ym myd natur/chwarae â mwd o ran datblygiad.

Yr erthygl lawn: From risky play to dirty play: why young children need 'dirty' nature play in their lives)

Chwarae â mwd

Y camau nesaf

Integreiddio Mwynhau Mwd yn ymarfer y feithrinfa

Pan fydd gweithgareddau Mwynhau Mwd, parthau mwdlyd, a rôl arweinydd awyr agored wedi'u sefydlu, bydd y camau nesaf yn canolbwyntio ar ddyfnhau'r dysgu a galluogi archwilio i dyfu'n organig o ddiddordebau'r plant.



Mae chwarae â mwd yn agor y drws yn naturiol i fyd ehangach sy'n cynnwys pridd, byd natur, ac ymchwilio yn yr awyr agored, sy'n cynnig cyfleoedd di-ri' i ymestyn dealltwriaeth gydag amser. Drwy gynnal a chadw parthau mwdlyd a'u gwella'n feddylgar, gall ymarferwyr hybu ymgysylltu cyson gan sicrhau ar yr un pryd bod profiadau'n parhau i fod yn benagored ac yn parhau i gael eu harwain gan y plant. Mae cyflwyno adnoddau newydd, straeon ac ymchwiliadau go iawn yn annog y plant i greu cysylltiadau, gofyn cwestiynau, a datblygu perthynas ddyfnach â byd natur. Mae'r camau nesaf hyn yn rhoi pwys ar ofal, chwilfrydedd, a pharch at bethau byw, a fydd yn helpu'r plant i feithrin empathi ac ymwybyddiaeth amgylcheddol gynnar drwy brofiadau ymarferol, ystyrlon.

Y camau nesaf ar ôl cyflwyno Mwynhau Mwd

- cynnal a chadw a diweddaru parthau mwdlyd fel eu bod yn parhau'n ddiddorol.
- ymestyn y dysgu drwy bryfociadau a gwelliannau penagored.
- cyflwyno straeon, cerddi, a thestunau ffeithiol sy'n gysylltiedig â mwd neu fyd natur.
- darparu cyfleoedd i hela trychfilod ac archwilio pridd.
- archwilio mwydod a bywyd gwyllt tanddaearol arall er mwyn meithrin empathi a dealltwriaeth.
- cynorthwyo'r plant i adnabod planhigion, creaduriaid ac eitemau naturiol cyffredin.
- annog gofal a chyfrifoldeb am fyd natur a pharch ato.

Mwydod: archarwyr tanddaearol y ddaear

Mae archwilio mwydod yn rhoi dealltwriaeth ddyfnach i'r plant o sut y mae byd natur yn gweithio a sut y mae pethau byw'n gysylltiedig â'i gilydd. Drwy brofiadau ymarferol, bydd y plant yn dysgu bod mwydod yn bwyta planhigion marw ac yn eu troi'n bridd cyfoethog, bod pridd yn helpu planhigion a choed i dyfu, a bod coed yn creu'r awyr iach yr ydym yn ei anadlu — a fydd yn dangos i'r plant mai mwydod, yn wir, yw archarwyr y Ddaear.

Yn aml, y feithrinfa fydd y man cyntaf lle bydd y plant yn cael amser a lle i archwilio bywyd dan y ddaear, gofyn cwestiynau, a datblygu empathi at greaduriaid byw. Drwy addysgu'r plant i drin mwydod yn ofalus a thrwy esbonio mai dim ond am bum eiliad y gellir dal mwydyn oherwydd bod angen iddo aros yn y pridd i anadlu, bydd ymarferwyr yn helpu i feithrin parch, gofal, a chariad parhaus at fyd natur.





Ymestyn y dysgu drwy archwilio a llenyddiaeth

Gellir dyfnhau chwarae â mwd drwy gyflwyno straeon, cerddi, a llyfrau ffeithiol sy'n gysylltiedig â phridd, byd natur, ac amgylcheddau awyr agored. Gall y testunau hynny ysbrydoli syniadau newydd, geirfa, a chwarae dychmygus mewn parthau mwdlyd. Mae pryfociadau syml, megis cymeriadau stori, darnau rhydd naturiol, neu gwestiynau a ofynnir gan oedolion, yn helpu i ymestyn y dysgu heb ei gyfarwyddo.